

ECO'R WYDDFA

Rhif 227

HYDREF 1996

Pris 30c

PENCAMPWYR 'SGOTA

Cynhaliwyd cystadleuaeth bysgota o bwys ar Lyn Padarn ddydd Sul, Medi 22. Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfaï a Llyfni oedd wedi gwahodd Cymdeithas Eog a Brithyll Cymru i gynnal un o'u treialon ar gyfer dewis timau rhyngwladol pysgota plu.

Roedd yn bosib i'r Gymdeithas leol gynnal y gystadleuaeth oherwydd llwyddiant y polisi o wella pysgodfeydd yr ardal. Aed ati yn ddiweddar i wella'n arbennig adnoddau pysgota ar gyfer yr anabl. Yn sgil darparu adnoddau ar gyfer yr anabl mae'r cyfleusterau wedi eu gwella hefyd ar gyfer holl aelodau'r Gymdeithas hefyd.

Er bod llawer o waith i'w wneud eto mae'r Gymdeithas wedi cyflawni llawer yn barod a hynny gyda chymorth gan Gyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Gwynedd (a'r hen Gyngor Arfon). Prynwyd cychod a pheriannau newydd, ac yn ogystal â'r offer hyn, prynwyd hawliau pysgota ar Lyn Nantlle, Afon Llyfni a Llyn Cwm Silyn.

Gan fod yma gychod a pheiriannau o'r safon uchaf erbyn hyn gallodd y Gymdeithas groesawu un o'r treialon ar gyfer tim rhyngwladol yr anabl ddydd Sul diwethaf. Roedd y ffaith bod y treialon wedi eu cynnal ar Lyn Padarn yn dangos fod gan y Gymdeithas bellach rai o'r cyfleusterau gorau'r wlad.

Daeth 17 o gystadleuwyr ynghyd ac wedi diwrnod o bysgota ar y llyn, Huw Walters o Gydwelli oedd yn fuddugol, wedi dal pysgodyn 1¼ pwys.

Gobeithio y gwelir rhagor o ddigwyddiadau tebyg yn cael eu denu i'r ardal. Un siom a deimlai'r trefnwyr oedd na chafwyd noddwr lleol i'r diwrnod. Byddai wedi bod yn braf gweld cwmni lleol yn cynnig nawdd, ond nid felly y bu. Diolcha'r Gymdeithas er hynny am y nawdd a gafwyd gan Siop Eifion Williams, Caernarfon a



Dewi Jones o Fethel — un o'r cystadleuwyr.



CeKa Tools, Pwllheli. Diolchir hefyd i Westy Dolbadarn, Llanberis am eu cydweithrediad ynglŷn â'r fenter.

Dymuna'r ysgrifennydd, Huw



Plant Bethel ydi'r rhain, ond dymunwn hwyl fawr i holl blant y fro ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd.

MAE'R ECO ANGEN EICH HELP!

Mae'n anodd credu, ond mi fydd *Eco'r Wyddfa* yn dathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed mis Chwefror nesaf. Erbyn y flwyddyn 2000 bydd wedi gwasanaethu'r fro fel misolyn Cymraeg am bron i chwarter canrif! Yr hyn sy'n fwy rhyfeddol yw'r ffaith fod rhai o drigolion y fro wedi gwasanaethu'r misolyn am chwarter canrif!

Heb wasanaeth yr ugeiniau o'r gwirfoddolwyr hyn byddai cyfraniad yr *Eco* wedi llithro i ebargofiant ers rhai blynedd bellach. Ond erys ffaith mwy rhyfeddol fyth — mae yna sawl un yn parhau i wneud dyletswyddau allweddol yn y broses o'i gynhyrchu o fis i fis ers ei sefydlu. Rhyfeddod yn wir — a mawr yw ein diolch iddynt.

Ond mae chwarter canrif yn amser hir ac mae rhai ohonynt yn awyddus iawn i gael saib. Saib haeddiannol iawn ddyweda innau fel un o sefydlwyr a golygydd cyntaf yr *Eco*, ac erbyn hyn yn Gadeirydd y Pwyllgor

Llywio. Gwn o brofiad am y baich dros gyfnod maith o gynhyrchu'r *Eco* — ond gwn hefyd am y pleser a'r mwynhad digamsyniol a geir o weithio'n wirfoddol i'r fath ymgyrch. Mae ymddangosiad misol yr *Eco* yn golygu blynedd bellach o barhad i'r iaith Gymraeg yn y dyffryn heb sôn am y pleser a gaiff miloedd o ddarlenn ei gynnwys.

Rwy'n ymwybodol hefyd o'r consyrn sydd yna bellach o barhad yr iaith Gymraeg yn y dyffryn. Gwn fod llawer un yn poeni'n wirioneddol am ddyfodol yr iaith yn un o'i chadarnleoedd. Dyma gyfle felly i wyrdroi'r consyrn gan weithredu'n bositif ac yn ymarferol. Mae eich angen chwi i ysgwyddo'r baich. Rhowch heibio'r swildod a chodwch y ffôn a chynigiwch eich gwasanaeth!

Mae sawl swyddog ffyddlon yn dymuno trosglwyddo cyfrifoldeb erbyn hyn. Maent yn pwysleisio eu bod yn fwy na pharod i gynnig hyfforddiant a chanllawiau i'r sawl sy'n dymuno cymryd eu dyletswyddau drosodd.

Rhestraf isod y swyddi sy'n allweddol i sicrhau bodolaeth *Eco'r Wyddfa* ac sydd ar hyn o bryd yn barod i gael eu llenwi:

Trefnydd Ariannol

Trefnydd Hysbysebu

Trefnydd Plygu'r Eco

Dirprwy Drefnydd Bwddelu'r Eco

Heb wirfoddolwyr i lenwi'r swyddi hyn gallaf broffwydo yn hawdd mai 'cwta chwarter canrif y bu *Eco'r Wyddfa* mewn bodolaeth'. Duw a'm gwaredo!

I gael mwy o wybodaeth am y swyddi uchod ffoniwch fi ar (01286) 871274 neu galwch yn Cae Eboni, Penisarwaun.

ARWEL JONES

*Cadeirydd Pwyllgor Llywio
Eco'r Wyddfa*

Y WAUN a'i PHOBL

gan R. GWYNN DAVIES

**NOSON I LANSIO'R GYFROL YN Y GANOLFAN
NOS WENER, 11 HYDREF am 7 o'r gloch
gyda DAFYDD IWAN :: MEIRION MacINTYRE HUWS
PLANT YSGOL WAUNFAWR . . . a mwy
— CROESO CYNNES I BAWB —**

YR URDD — LLANBERIS

Os na chaiff Adran Bentref Llanberis o'r Urdd arweinydd newydd ni fydd modd cynnal yr Adran eleni.

Cynhelir pwyllgor yn YSGOL DOLBADARN
NOS FERCHER, 2 HYDREF, am 6 o'r gloch.

DOWCH YNO OS YDYCH YN AWYDDUS I HELP CYNNAL YR ADRAN

2

AGOR LLWYBR GLAS Y DORLAN



Cafwyd adroddiad yn rhifyn diwethaf o'r *Eco* am agor Llwybr Glas y Dorlan ym Mharc Padarn. Yn y llun gwelir rhai o'r llu oedd yn bresennol ar adeg yr Agoriad Swyddogol. Rhys gefn (chwith i'r dde): Y Cyngorydd Iwan Jones; Y Cyngorydd Pat Larsen; Ken Latham, Warden y Parc; Deiniol Tegid, Telecom Prydeinig; Paul Sivy, Dirprwy Warden y Parc. Rhys flaen: Tracy Dougherty, Grŵp Mynediad Arfon.

CANMOL ATHRAWON DA

Darlennais a mwynheais bob gair o erthygl Mair Roberts o dan y teitl 'Beth sy'n gwneud Athro Da' yn rhifyn Mehefin o'r *Eco*; ac yn dilyn hynny gan lythyr diddorol John E. Williams yn rhifyn Gorffennaf.

Fel cyn-ddisgybl o'r ysgol annwyl honno ym Mrynrefail (sydd gyda gofid imi yn ddolur i'r llygad bellach) fe garwn ddiolch o galon i'r ddau am erthyglau difyr a phortreadau byw iawn o'r ddau athro gwyb, sef y diweddar Mr Robert Morris a Miss Catherine Evans. Braint ac anrhydedd i minnau yw cael tystio i mi dderbyn sylfaen gadarn yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg dan eu hathrawiaeth.

Roedd criw o athrawon penigamp yn Ysgol Brynrefail pan ddechreuais i yno yn 1944, gyda gofid rhaid dweud fod llawer ohonynt wedi ein gadael bellach. Parchus yw'r goffadwriaeth hyd heddiw amdanynt. Wrth gwrs roedd gennym i gyd ein ffefryn, ac ni af ar ôl y rhai hynny nad oeddynt yn fy llyfrau i, ond carwn ychwanegu at y rhestr, sef Mrs Mary Vaughan Jones (Miss Parry Beiol neu Miss Parry Bach); a Mr E. Lewis Jones a fu, am gyfnod, yn athro cerddoriaeth arnaf. Gŵr bonheddig a cherddor gwyb oedd Mr Jones. Cofiaf amdano yn ein hyfforddi yn ei awr ginio ar gyfer eisteddfod flynyddol yr Ysgol a byddai ganddo air bach o gefnogaeth bob amser i ni fyddai am gystadlu ar y canu ac

yr oedd hyn, coeliwch chi fi, yn mynd ymhell.

Am Mrs Mary Vaughan Jones, athrawes Beioleg a Chwaraeon, beth mwy allaf ei ddweud na'r ffaith ei bod hithau ymysg y ffefrynnau. Pam? Credaf mai am y ffaith syml ei bod, fel y dywed y Sais, yn *down to earth* ac yn gallu ennyn diddordeb anhygoel mewn pwnc fel Bioleg, a'i bod hefyd yr un mor fedrus yn ei hail bwnc, sef ymarfer corff a chwaraeon. Cofiaf fel yr oedd criw o enethod o'm dosbarth i wedi gwneud rhywbeth nad oedd yn plesio'r athrawes chwaraeon rhyw ddiwrnod a'r gosb oedd: cerdded o amgylch y cae chwarae mawr hwnnw o gongl i gongl — ac nid unwaith 'chwaith! 'Sgwn i ydi hi'n cofio am hyn?

Bu Mrs Mary Vaughan Jones yma yn Chwillog, rhai blynyddoedd yn ôl bellach, yn cynnal dosbarthiadau nos a chefais y fraint i fynychu'r dosbarth. Ie, yr un oedd hi o hyd ac yr un mor ddifyr, gyda'r ddawn o ennyn diddordeb... a minnau'n gwranddo'n well wedi imi fynd yn hyn!

Diolch i'r ddau athro da yma eto am eu gwaith, a'n braint ni oedd cael ein hyfforddi ganddynt ynghyd â'r athrawon eraill a enwyd eisoes. Trueni na fuaswn wedi gweld mwy o werth yn eu hymdrechion yn nyddiau fy ieuencid!

EDITH WILLIAMS, Chwillog
(Gynt o Lanberis)

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

CYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLEN

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn ddiweddar fe gafwyd trafodaeth gyda'r Arolygwr Gwyn Lloyd a'r Hedddwas Reginald Jones ynglŷn ag amryw o broblemau yn ymwneud â'r plwyf.

Cafwyd trafodaeth ar y broblem o ddefnyddio cyffuriau mewn pentrefi gwledig, cyflymder traffig, ac yn bennaf o bosib, fandaliaeth, sy'n golygu llawr o gost cwbl dianghenrhaid i'r trethdalwyr. Cyfeiriwyd at un achos arbennig a ddigwyddodd yn Neiniol yn ddiweddar pan achoswyd £500 o gost ar gysgodfan bysiau. Derbyniodd y Cyngor nifer o geisiadau yn gofyn iddynt dynnu'r gysgodfan i lawn gan ei bod yn cael ei defnyddio i bob pwrpas ond i ddisgwyl bysiau. Bydd aelodau Deiniolen yn trafod hyn ac yn cael llais yr ardal ar y mater a thrafodir y broblem yng

ngyfarfod nesaf y Cyngor.

Yn ei adroddiad ar weithgarwch Antur Padarn hysbysodd y Cyngorydd Glyn Tomos y byddai holiadur yn cael ei anfon i drigolion ardaloedd Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-bont yn y dyfodol agos fel rhan o astudiaeth o dan nawdd y WDA.

Hysbyswyd fod Cyngor Gwynedd o'r diwedd wedi cytuno i gyfarfod â chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymdeithas i drafod y cofnod anghywir ynglŷn â'r cais i wyro Llwybr Cae Goronwy, Fachwen.

Bydd sgipiau casglu gwastraff yn ymweld a Bethel ar 19 Tachwedd; Deiniolen ar 28 Ionawr 1997. Gwnaed cais hefyd am i Gyngor Gwynedd ystyried sicrhau gwasanaeth sgipiau i Seion, Llanddeiniolen a Dinorwig.

YSGOL PENISARWAUN

(i blant yr ysgol)

O 'Tan-Coed' wedi'r oedi, — y daethom

Ar daith fer, a sylwi

Fod rwbel hen chwareli

Yn awr yn ein gwarchod ni.

SELWYN GRIFFITH

(Roedd hen Ysgol Tan-y-Coed i lawr yn y pant a doedd y plant ddim yn gweld y Chwarel a'r tomennydd llechi o'r fan honno.)

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**

Ffôn: (01286)

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

Cefnogwch Fusnesau Lleol

**CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451**

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafailio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

CHWILOTA HEL MWYAR DUON A HANES LLEOL



*Croesaw Medi, fis fy serch,
Pan fo'r mwyar ar y llwyni . . .*

meddai Eifion Wyn. Ac yn ystod y mis diwethaf rwy'n siŵr fod nifer ohonoch wedi bod yn crwydro'r gwrychoedd yn casglu'r mwyar duon — jest digon i wneud cacen blât, neu bwysi i wneud jam a jeli, ac ambell un mwy wiweraidd na'i gilydd yn eu storio'n y rhewgell ar gyfer dyddiau llwm y gaeaf. Rwy'n siŵr hefyd fod amryw hefo'u llecyn arbennig i gasglu — un ai am fod y mwyar yno'n aeddfedu'n gynharach nac mewn llefydd eraill, neu oherwydd fod y mwyar yn sypiau anferth fel marblis porffor. Ydi, mae rhai llwyni mwyar yn cynhyrchu gwell ffrwyth na'i gilydd. Dim ond y blaenffrwyth sy'n werth ei hel oddi ar ambell lwyn; mae gweddill y fiaren yn llawn mwyar caled, bychan. A'r gwahaniaeth rhwng y mieri hyn sydd bellach o fudd i haneswyr lleol.

Rai blynyddoedd yn ôl bellach, darganfuwyd ei bod yn bosibl dyddio gwrychoedd drwy gyfrif y gwahanol fathau o goed a llwyni oedd ynddo. Po fwyaf yr amrywiaeth, hynaf y gwrych. Ac i gadarnhau hyn, roedd cofnodion ysgrifenedig ar gael yn nodi pryd y plannwyd rhai gwrychoedd. Yn anffodus, dim ond mewn rhai rhannau o Brydain roedd yn bosibl defnyddio'r dechneg hon. Mae canolbarth a de Lloegr a gororau Cymru yn gyfoethog mewn gwrychoedd, ond i'r gogledd a'r gorllewin, cloddiau pridd a waliau cerrig oedd yn cael eu defnyddio i nodi terfynau. Eithin a drain duon oedd fwyaf cyffredin yn y cloddiau pridd, ond roedd un planhigyn arall hefyd — y fiaren. Ers canrif a hanner mae botanegwyr yn gytun fod llawer iawn o wahanol fathau o fwyar duon yn bod, ond prin fu'r ymchwili yn y maes. Yna, yn 1958 cyhoedwyd gwaith gŵr o'r enw W. C. R. Watson, a gofnododd 387 o fathau gwahanol o fwyar ar Ynysgoedd Prydain yn unig. Erbyn hyn,

fodd bynnag, credir fod y nifer yn nes at 500; llawer ohonynt wedi eu cyfyngu i 'ynysgoedd' o dir yma ac acw, a gallai'r cyfanswm fod hyd yn oed yn fwy na hynny!

Gŵr arall a wnaeth astudiaeth o fwyar oedd D. E. Allen, a fu'n Ysgrifennydd Cymdeithas Fotanegol Ynysgoedd Prydain. Canolbwyntiodd ei astudiaeth ar Ynys Manaw, a darganfu 45 math gwahanol o fwyar yn tyfu yno. Roedd rhyw bedwar math i'w cael bron ym mhob rhan o'r ynys. Wedi dwy flynedd o astudiaeth, sylwodd ar batrwm arbennig yn y dosbarthiad. Roedd y cloddiau ar hyd ochrau ffyrdd a llwybrau yn cynnwys rhyw dri neu bedwar math gwahanol o fwyar, ond roedd ambell lwybr neu lôn drol yn cynnwys hyd at wyth neu naw o fathau gwahanol. Sylwodd hefyd nad oedd y rhain fel arfer yn cael eu defnyddio mor aml bellach — roeddent yn tueddu i gael eu tagu gan y mwyar a thyfiant arall. Fe'i disgrifiodd fel 'llwybrau'r ysbrydion', lle roedd y planhigion yn ffosiliau byw.

Darganfu fod y llwybrau hyn yn perthyn i gyfnod hen iawn yn hanes Ynys Manaw, a bod rhai ohonynt yn arwain i Tynwald (man cyfarfod pwysicaf yr Ynyswyr). Cymharodd ei ganlyniadau â gwaith tebyg a wnaed yn Ne Iwerddon, a darganfu fod y patrymau'n debyg: roedd yn bosibl lleoli hen llwybrau drwy gyfrif y nifer gwahanol fathau o fwyar ar y cloddiau o bobtu.

Yn union fel coed yng ngwrychoedd deheudir Prydain, gellid defnyddio gwahanol fathau o fwyar i ddyddio cloddiau a llwybrau yn y gorllewin a'r gogledd. 'Sgwn i faint ohonom fu'n troedio llwybrau cyn-hanes wrth hel mwyar duon eleni? Mae'n rhoi ystyr newydd i linell enwog Evan Evans o'i englynion i Lys Ifor Hael: 'Mieri lle bu mawredd'.

TERMAU CHWAREL

Yn ystod gwyliau'r haf cefais y pleser o ymweld â thref ar y gororau na fûm yno ers rhai blynyddoedd — Y Gelli Gandryll ('sgwn i pam y cafodd yr enw hwnnw?). Mae'r dref hon yn fyd-enwog bellach fel canolfan y byd llyfrau ail-law. Daw miloedd o bobl yno'n flynyddol i grwy'r hen wyrwys, yr hen sinema, yr hen orsaf dân, yr hen gastell — pob un bellach yn llawn o lyfrau. Ymhlith y miloedd o lyfrau deuthum ar draws cyhoeddiad gan Wasg Prifysgol Cymru yn dyddio'n ôl i 1963. Ynddo roedd casgliad o dermau chwarel. Nid termau chwareli llechi yn unig a gynhwysai, ond chwareli cerrig ac ithfaen yn ogystal.

Mae'r termau yn cynnwys enwau'r chwarelwyr am y gwahanol wythiennau o garreg neu lechfaen oedd yn werthfawr. Mae mwy o enwau o Fethesda a Blaenau Ffestiniog yn cael eu cynnwys nac o Lanberis, ond dyma'r rhestr o'r fro hon: Glynrhonwy, Y Coch Calad, Y Cochion, Y Glas, Y Llwydion, Y Pwysa, Yr Hen Las a'r C'ledion Trydydd. Mae'r enw cyntaf yn awgrymu lleoliad y wythien arbennig hon, ond a oedd y lleill i gyd yn perthyn i Chwarel Dinorwig, yntau i rai o'r chwareli llai. Mae'r enwau yn rhai digon cyffredin, ac yn amlwg yn disgrifio lliw y llechfaen, ond beth am Y C'ledion Trydydd? Pam 'trydydd'? eth ddigwyddodd i'r rhai 'cyntaf' a'r 'ail' — os oedd y fath rai'n bod?

A beth yw'r gwahaniaeth rhwng Y Glas a'r Hen Las?

Gyn-chwarelwyr y fro, rhowch wybod mwy i ni am yr enwau ac am leoliad y gwythiennau arbennig hyn.

PWY OEDD ELAN?

Yn ystod yr wythnosau aeth heibio cefais gais i egluro pam fod cymaint o leoedd yn Llanrug yn cario'r enw 'Elan' neu 'Elen'. Dyna Tyddyn Elan, Rhos Elan, Cefn Elan a Hafan Elan.

Y dyddiad cyntaf i mi ddod ar draws yr enw yw 1571 mewn dogfennau yn cofnodi trosglwyddo tiroedd o eiddo Rowland ap William ap Ednyfed. Mae'r dogfennau yn cyfeirio at ddaliadau yn Rug (yr hen dref a ddaeth yn ddiweddarach yn sylfaen y plwyf), ac yn cynnwys enwau caeau ar ffermydd Bryn y Fedwen a Thyddyn Elan. Yn 1609 wrth drafod tiroedd eraill o eiddo'r un person, enwir Cae Mawr a Thyddyn Ifor.

Erbyn o leiaf 1814, roedd fferm Tyddyn Elan yn eiddo i Stâd Plastirion a Bodaden. Mae mapiau arolwg o eiddo'r stâd yn bod o'r dyddiad hwnnw, ond mae'r casgliad hefyd yn cynnwys rhai mapiau cynharach. Enwau diweddarach yw Rhos Elan a Chefn Elan, wrth gwr; enwau sy'n dyddio o gyfnod cau'r tir comin — yn yr achos hwn, y Rhos Rug.

Mae afonig fechan yn llifo oddi ar y rhos ger Fron Helyg ar y Lôn Goes, yn croesi cae Llys Eiddon ac yn dilyn y ffordd gefn tua thai Cefn Elan. Gyferbyn â mynedfa Tyddyn Elan, mae'r nant yn croesi o dan y ffordd, ac yna'n llifo drwy'r caeau tu ôl i Dwll y Clawdd a Didfa ac ymlaen am Lwyn y Brain. Chlywais i erioed neb yn rhoi enw i'r afon hon, ond gallai'n hawdd fod wedi ei galw yn Afon Elan. (Yn union yr un modd yr enwir Afon Ifor, sy'n llifo o'r rhos ym Mharc Minffordd ac yn dilyn dreif Plastirion heibio i Glyn Ifor (sef yr hen Dyddyn Ifor neu Glan Afon Ifor) ac yn ymarllwys i'r Saint ym Mhontrug.

Onid mae gen i ofn nad wyf ddim nes i'r lan ynglŷn â phwy oedd yr 'Elan' wreiddiol.

Cofiwch anfon gair, hanesyn, llun neu ymholiad at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

Cefnogwch ein Hysbysebwy'r

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

'Un funud fach . . .'

MAT

Oes gennych chi fat traed sy'n siarad? Un o'r rheiny â'r gair CROESO wedi ei sgwennu arnynt. Mae'n nhw'n ddigon cyffredin erbyn hyn ac yn dweud wrth bawb sy'n galw heibio bod croeso yn eu haros. Hyd yma, o leiaf, welais i yr un mat o'r fath a ddywedodd gelwydd wrthyf!

Mae yna sloganau gwreiddiol ar ambell fat erbyn hyn. Sloganau hwyliog, bachog, fel 'O NA! NID CHI ETO!' Wrth weld un felly, cysuro fy hun y bydda i mai'r un neges sy'n wynebu pawb. A'r un pryd, wrth gwrs, obeithio na ddaru neb fy ngweld yn dod ac estyn y mat yn arbennig ar fy nghyfer!

Pa fath fat sydd gennych pan ddaw'r Efengyl heibio am dro? Daw honno weithiau drwy ddarn o wasanaeth a glywch ar y radio neu bwt o erthygl, fel y golofn hon. Daw dro arall drwy bregeth mewn capel neu bamphledyn roir yn eich llaw ar y stryd. Sut byddwch chi'n ymateb?

Mae neges yr Efengyl yn eang iawn. Mae cyfrolau wedi eu sgwennu amdani. Mae pobl wedi bod yn ei thrafod a'i chyhoeddi ers canrifoedd. Mae yna ryw beth newydd i'w ddysgu amdani o hyd. Gellir ei chyflwyno mewn cant a mil o wahanol ffyrdd. Ond wedi dweud popeth neges syml iawn ydyw am Iesu Grist yn byw a marw ac atgyfodi er mwyn cynnig Bywyd Tragwyddol i bawb sy'n credu ynddo. Dyna galon yr Efengyl, a nôl at y galon honno mae rhaid dod o hyd wrth ei thrafod.

Yr un hen gân a'r un hen stori yw'r Efengyl o hyd. Ond pa fat osodwch o'i blaen? Fyddwch chi'n blino clywed am Grist a'i Groes? Ydach chi'n colli amynedd efo pregethwyr sy'n mynnu sôn am bechod a'r angen am edifeirwch? Ydach chi'n fyddar i bob galwad i droi at Iesu a chredu ynddo? 'O na, nid chi eto'?

Ynteu oes gennych chi groeso gwresog i'r hen hen hanes? Oes 'rhyw newydd wyrth o'i angau drud yn dod o hyd i'r golwg' yn eich profiad chi o'r Efengyl? Fyddwch chi wrth eich bodd yn clywed Iesu Grist yn cael ei ganmol am ei gariad a'i waith?

Pa fat osodwch ar ei chyfer?

JOHN PRITCHARD

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Plant bach newydd Ysgol Cwm-y-glo.

Llongyfarchiadau i Ffion a Paul Rowlinson, Min-y-nant, ar enedigaeth efeilliaid, mab a merch, Gwynfor Deiniol ac Anest Elliw, ar y 10fed o Fedi, brawd a chwaer fach i Mari Fflur.

Gwellhad Buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Gwyneth Chick, Rhos-y-ffin, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Eglwys Sant Gabriel: Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch fel a ganlyn — Bore Sul, 13 Hydref: Gwasanaeth Undebol o'r Cymun Bendigaid, dwyieithog, am 9.15 a.m.

Nos Lun, 14 Hydref: Gosber am 7 p.m.

Nos Fercher, 16 Hydref: Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned am 7 p.m., a'r elw tuag at Eglwys Sant Gabirel.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor y gaeaf yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, 9 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parchg Emyr Owen. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd rhai materion a dderbyniwyd yn ystod y gwyliu. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs Taylor, Mrs M. Roberts, Mrs D. Jones, a Mrs Craven sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Croesawyd aelod newydd, Miss Meira Williams, i'n cyfarfodydd. Gofalwyd am y baned gan Mrs Latham a Mrs Ransom a diolchwyd iddynt ac i'r Parchg Emyr Owen gan Mrs Sandra Birbeck. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Ransom ac fe'i henillwyd gan Mrs M. Barlow.

Terfynwyd y cyfarfod gyda gweddi. Bydd y cyfarfod nesaf 7 Hydref yn Hafan Elan, Llanrug.

Ysgol Cwm-y-glo: Ar ddechrau blwyddyn newydd arall yn yr ysgol braf iawn yw cael croesawu deg o blant newydd i'r ysgol — Cathi Shelley i Bl. 6 a Lauren, Sara, Dewi, Anest, Siôn Arfon, Rhian, Siôn Idwal, Robert a Peter i'r Babanod. Maent wedi setlo yn ardderchog erbyn hyn. Rydym hefyd yn falch o gael estyn croeso i Steffan Price Jones o Lanrug at y Babanod ar fore Gwener.

Trist iawn oedd clywed am brofedigaeth sydyn Mrs Gwenifer Roberts ddiwedd mis Awst. Collodd ei chwaer oedd yn annwyl iawn ganddi. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â hi a'i theulu.

Croesawn Miss Sioned Williams o Benisarwaun atom y tymor hwn. Mae hi'n dilyn cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion. Gobeithio y bydd hi'n hapus iawn yn ein plith.

Eleni, bydd Mrs Heather Lowe o'r Fachwen yn treulio bob dydd Mawrth gyda ni fel rhan o Gynllun Artistiaid mewn Ysgolion. Bydd yn gweithio mewn gwahanol gyfryngau o waith celf. Ar gyfer y gwaith rydym yn gwneud apêl am hen ddefnyddiau o bob math — hen lenni, dillad gwely, gwlân, hen nets, a.y.y.b. Os oes gan rywun o ddarllenwyr yr Eco hen ddillad nad ydynt eu hangen bellach — tybed a ellwch gysylltu â'r ysgol ar 870860? Byddwn yn hynod falch ohonynt ac

yn fwy na pharod i'w casglu.

Braf iawn yw cael llongyfarch Llinos Fretwell ac Alyn ar enedigaeth eu mab bach, Arwel Owain. Cofion annwyl iawn atoch oddi wrthym i gyd yn yr ysgol.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Gorffennaf oedd Mrs Rita Williams, Ysgol Cwm-y-glo a Miss Carys Williams, Bryn, Cwm-y-glo. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r Clwb os dymunant.

PWYLLGOR APÊL LLANBERIS
GŴYL GERDD DANT 1996

BORE COFFI

YN Y BISTRO, LLANBERIS
DYDD GWENER, 27 MEDI
am 10.30 o'r gloch

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

ERIC JONES PENISARWAUN

PEINTIWR
AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go iawn ★

O SIAMBAR SELWYN

'Fûm i 'rioed yn Llan-y-dŵr. Ni fûm, nid af ychwaith.'

Fûm i 'rioed yn Llanfihangel-genu'r-Glyn 'chwaith, ond fe garwn fynd rywdro am fod yna ryw swyn arbennig yn yr enw.

Mae 'na rywbeth mewn enw a roddir ar le. Mi fuo gen i awydd erioed i fynd i Kathmandu a chael crwydro Nepal, ac o bosib, cael cip ar fynachdy Thyanboche a'r mynydd ucha yn y byd Chomolwngma.

Rwy'n rhy hen bellach i fentro cyn belled. Rwyf wedi penderfynu peidio mynd i wledydd lle mae angen pigiaid neu dabledi er diogelwch rhag afiechydon felly digon o waith y caf gip ar gopa'r byd. Digon o waith yr â i i Morocco eto 'chwaith, ond rwy'n falch i mi gael y cyfle rai blynyddoedd yn ôl i ymweld â'r dinasoedd sydd â swyn arbennig yn eu henwau: Marrakesh, Rabat, Fez, Meknes, Agadir a Casablanca. Oes, mae 'na ryw dynfa mewn ambell enw.

Profiad bythgofiadwy oedd ymwithio drwy strydoedd culion, drewllyd medina Marrakesh. Welais i 'rioed gymaint o feiciau modur yn ymwingo drwy gymaint o bobol, mewn strydoedd mor gul. Wrth gwrs mae rhamant y gorffennol i'w weld ac i'w deimlo yn nhemlau a phalasau holl ddinasoedd Imperialaidd Morocco, a phrofiad bythgofiadwy ydi ymwau drwy'r miloedd ar sgwâr Marrakesh, gan wyllo campau'r acrobats, y llyncwyr tân, a'r gwyr rhyfygus hynny sy'n ymfalchïo mewn gwisgo coleri o nadroedd gwenwynig o gylch eu gyddfau.

Dinas o adeiladau cochion ydy Marrakesh; ond dinas fodern o adeiladau gwynion ydy Casablanca, fel yr awgryma'r enw. Dyma brifddinas ddiwydiannol Morocco, a phan oeddwn yno welais i yr un marc o graffiti yn hagra'r gwynder yn unman. Eto, fe'n atgoffir yn aml mai rhan o'r Trydydd Byd yw'r gwledydd hyn — gwledydd sydd

heb lawn ddatblygu a gwareiddio. Tybed?

Synnais ar ôl dychwelyd a sylwi bod cymaint o adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys Neuaddau Coffa, mewn ardaloedd yn Eryri 'ma yn blastar o graffiti — a hynny yn ein gwlad 'waraiddiedig' ni.

Rabat yw prifddinas Morocco. Dinas o flodau a gerddi a choed. Dinas lle roedd y Brenin Hassan yn cartrefu yn ei balas moethus. Roedd ei lun ymhobman pan oeddwn i yno gan ei fod yn dathlu pum mlynedd ar hugain o'i deyrnasiad (fe ddethlir dyrchafiad y brenin i'w orsedd yn flynyddol yn Morocco). Tyda ni'n lwcus.

Os ydy medina Marrakesh yn agoriad llygad — dydi hi ddim i'w chymharu ag un Fez. Fez yw'r hynaf o ddinasoedd Imperialaidd Morocco. Dinas a ddarganfuwyd yn y flwyddyn 808 gan ŵr o'r enw Idris. Tybed a oedd yr Idris hwn o dras Gymreig? Digon o waith, neu mi fyddai un o fynyddoedd yr Atlas yn sicr o fod wedi'i enwi yn Cader Idris!

Plethwaith o strydoedd culion, budr, drewllyd ydi medina Fez, ac fe allwch bryn unrhyw beth o dau haul y greadigaeth yno. Cynteddau fel ogofau yn diflannu i'r tywyllwch a phlant carpiog yn gwibio i mewn ac allan ohonynt fel llygod. Hen wŷr a gwragedd, babanod prin allan o'u clytia, yn begera, a mulod llwythog yn eich hyrddio'n ddiseremoni. Os peryglon beiciau modur a'm blinai yn nirgelion Marrakesh, roedd mulo Fez yn fwy peryglus oherwydd fe glywch chi feiciau modur fel cacwn wrth eich pen-ôl, tra boddwyd sŵn y mulod ym mwrlwm prysurdeb y medina.

Sut yn y byd mawr ma'r holl bobol hyn yn llwyddo i wneud bywoliaeth yn eu bocsus o siopau — 'wn i ddim. Yma, yng nghrombil y filltir sgwâr o brysurdeb, fe ddowch ar draws y

crefftwyr wrth eu gwaith, yn cerfio addurniadau ar blatiau, ac ar ornamentau o gopr a phres, ac yn trin lledr a gwneud carpedi. Carpedi costus mae'n wir, ond carped am oes, ac er gwaetha'r pris — bagen.

Os ewch chi i Morocco gan fynd ar daith ddiddorol, ond blinedig, drwy'r wlad fe fydd angen wythnos arnoch i ymlacio a diogi ar y traeth. Ble'n well na Agadir? Dinas arall â hanes rhamantus i'w gorffennol, ond heddiw ymwelwyr yn chwilio am yr haul sy'n heidio i'r lle. Ailadeiladwyd Agadir ar ôl i'r

ddinas gael ei dinistrio gan ddaeargryn fawr yn 1960.

Oes, mae gen i atgofion difyr am wlad a dinasoedd Morocco, ac am sawl gwlad arall, ond fûm innau, mwy na T. Rowland Hughes, 'rioed 'yn Llan-y-dŵr, er nad oes harddach man rwy'n siŵr.

Tro nesa y byddai'n mynd i lawr tua Aberystwyth 'na ma' gen i flys picio i Lanfihangel-genu'r-Glyn, dim ond am fy 'mod i'n hoffi enw'r lle. Efo enw mor dlws fe ddylai fod yn le delfrydol. Ond eto, efallai mai gwell fyddai peidio — rhag ofn imi gael fy siomi.

Y GWALCH A'R COUNTRYMAN



Yn ddiweddar bu'r 'Gwalch', ynghyd â'i wraig a'i fab, mewn garddwest yng ngerddi'r 'Countryman' yn Burford yn y Cotswolds. Bu'r Gwalch yn cyfrannu'n gyson i'r cyfnodolyn hwnnw am bymtheng mlynedd a'r achlysur oedd ymddoliad y golygydd, Christopher Hall. Cyfarfu hefyd â Tom Quinn golygydd newydd y cylchgrawn.



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746



Wynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: (01286)

650552

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Cydymdeimlo: Ddydd Mercher, ar ôl gwaeledd byr, bu farw Mrs Blodwen Jones, 13 Bro Rhos. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Ar 16 Awst, yn 46 mlwydd oed, bu farw Mrs Jennifer Margaret Medforth, Eryri. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Diolch: Dymuna Nerys Owen, Wernlas, Saron, ddiolch o galon i'w theulu a'i chyfeillion am eu gofal a'u dymuniadau da tra bu yn yr ysbyty yn Manceinion ac ar ôl iddi ddod adref.

Noson Goffi: Nos Fawrth, 15 Hydref, am 7.30 o'r gloch yng Nghapel y Cysegr cynhelir Noson Goffi. Edrychir ymlaen am noson ddiddorol yng nghwmni Pedwarawd Pres Seindorf Porthaethwy. Bydd croeso cynnes i bawb i'r noson arbennig hon. Mae tocynnau ar gael — £1 i oedolion (plant 50c wrth y drws) — gan unrhyw un o swyddogion Capel Cysegr. Bydd yr elw tuag at y capel.

Merched y Wawr: Nos Fercher, 11 Medi, yng Nghapel Cysegr, cynhaliwyd cyngerdd a chymerwyd rhan gan Hogia'r Ddwylan dan arweiniad Sioned Webb. Cafwyd gwledd arbennig o raglen amrywiol a chyfoethog ganddynt. Cymerwyd rhan hefyd gan rai o ddoniau lleol a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr eleni. Agorwyd y noson gyda gair o groeso a chyflwyniad i'r noson gan y llywydd, Mrs Deilwen M. Hughes. Roedd y noson yng ngofal Gwilym Williams, un o aelodau Hogia'r Ddwylan. Y doniau lleol a gymerodd ran mor ardderchog oedd Dewi Griffiths, cornet, gyda'i fam, Mrs Glenys Griffiths yn cyfeilio; Bethan Williams a Caryl Owen yn cyflwyno ymgom; a Lleisiau Cadnant a gipiodd y drydedd wobwr yn y Genedlaethol. Yn dilyn y cyngerdd trefnwyd paned a lluniaeth i'r artistiaid gan aelodau pwyllgor Merched y Wawr.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen nos Fercher, 9 Hydref yn yr Ysgol Gynradd, am 7.30 o'r gloch, pan fydd Bethan Jones-Parry yn sôn am ei phrofiad yn cyflwyno manylion am gynnwys y papurau newydd ar y radio yn y boreau. Bydd croeso cynnes a diffuant iawn i unrhyw un a ddymuna ymuno â'r Merched —

dewch a mwynhewch y croeso.

Taith Gerdded y Cylch Meithrin: Fore Sul, 8 Medi, cynhaliwyd Taith Gerdded Noddedig er budd y Cylch Meithrin. Daeth nifer o blant, rhieni, ac un nain heini iawn, ynghyd y tu allan i'r Caban Meithrin am ddeg o'r gloch, ac aeth y daith heibio Tre Gof ac ar hyd Lôn Gwyndy i'r Gelli Gyffwrdd. Bu'n daith gerdded sydyn iwan gan fod llawer o siarad a chwerthin ymysg y cerddwyr! Wedi cyrraedd pen y daith yn y Gelli Gyffwrdd cafodd y plant amser i ymlacio yn y maes chwarae tra bu'r rhieni yn y caffi am baned! Mentrodd y dewraf o'r criw i gerdded yn ôl hefyd tra brysiodd eraill adref am eu cinio Sul.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb fu'n cerdded ac i bawb a noddodd y plant ac i Mr S. Bristow, Y Gelli Gyffwrdd, am ei groeso a'i gyfraniad tuag at yr achos. Cewch wybod faint o elw a wnaed yn y rhifyn nesaf o'r Eco.


Clwb 200 y Neuadd Goffa: Enillwyr mis Awst oedd — £20: Gareth Jones, Llys Elen (224); £10: Nia Ll. Griffith, Glan Dŵr (197); £5 yr un: Idris Morris, Fachell (53); Alwyn Jones, Bro Dawel (148); Margaret Williams, Cefn Isaf (133); William Parry, 11 Tan-y-buarth (129); Joan Ginsberg, Celtic House (156); Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135); Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn (77); Eirlys Williams, 20 Y Ddôl (96).

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Yn ystod wythnos olaf y tymor cafwyd cyfarfod gwobrwyto Blwydd 6. Cafwyd rhaglen amrywiol gan y plant yng nghwmni plant yr ysgol a rhieni'r plant oedd yn gadael am yr ysgol uwchradd.

Enillwyd gwobr Mr a Mrs Griffiths, Llwyn Eithin, am waith cerddorol gorau'r flwyddyn gan Gwenno Thomas. Enillydd gwobr Selwyn Griffith am waith ieithyddol yn y Gymraeg oedd Ffion Owen; ac enillwyd gwobr goffa W. G. Ellis, i'r bachgen a'r eneth a ddangosodd ddiddordeb ym mhob agwedd o'r cwricwlwm, gan Gemma Whittaker a Cefin Williams.

Cefnogwch ein Hysbysebwy'r

Cyfarfod Gwobrwyto Blwyddyn Chwech



Ffion Owen, enillydd gwobr Selwyn Griffith am y gwaith ieithyddol gorau, ynghwmni Selwyn Griffith a Rhys Harries.



Gemma Whittaker a Cefin Williams, enillwyr Gwobr Goffa W. G. Ellis, i'r disgyblion a ddangosodd ddiddordeb ym mhob agwedd o'r cwricwlwm, ynghwmni Mrs Ellis a Rhys Harries.



Gwenno Thomas, enillydd gwobr Mr a Mrs Griffith am waith cerddorol gorau'r flwyddyn, ynghwmni Mr a Mrs Griffith a Rhys Harries.

Siop Trin Gwallt

SANDRA

Stryd Fawr DEINIOLLEN

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr



J.M. JONES
A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU - TRWSIO

- ★ Teledu ★ Fideo
- ★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Marwolaeth: Ddydd Mercher, 20 Awst, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Owen Hughes, gŵr y ddiweddar Nellie Hughes, Erw Fair, Deiniolen, yn 82 mlwydd oed.

Roedd yn ŵr annwyl a thawel ac yn fawr ei barch yn yr ardal. Bu'n flaenor yn Eglwys y Tabernacl hyd nes y daeth yr achos yno i ben. Wedi'i ymddeoliad fel pobydd bu'n gweithio yn llyfrgell y pentref am rai blyneddau.

Cynhaliwyd y gwasnaeth angladdol yn eglwys Ebeneser ddydd Mawrth, 20 Awst, pryd y gweinyddwyd gan y gweinidog, y Parchg John Pritchard, a chymerwyd rhan gan y Parchg Geraint Parry, cefnder yr ymadawedig. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanddeiniolen.

Cefnywaun ac Ebeneser: Mae'r Ysgol Sul wedi aildechrau wedi gwyliau'r haf erbyn hyn. Caiff ei chynnal yn Ebeneser am 10.30 o'r gloch ar fore Sul. Byddem yn falch iawn o groesawu rhagor o blatn i'r Ysgol Sul. Os ydych yn awyddus i'ch plant ddechrau dod i'r Ysgol Sul dowch â hwy draw i Ebeneser ar fore Sul. Mae amryw o rieni yn aros yn yr oedfa tra bo'r plant yn yr Ysgol Sul. Beth am ymuno â hwy a gweddill y gynulleidfa?

Cymdeithas y Chwirydd: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd Cymdeithas Chwirydd Cefnywaun ac Ebeneser nos lau, Medi 12. Roedd y defosiwn yng ngofal Mrs Eirlys Williams a chafwyd

astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad y gweinidog. Trefnwyd rhaglen y tymor a phenderfynwyd cynnal y cyfarfodydd yn ystod y prynhawn. Bydd y cyfarfod nesaf felly am 2 o'r gloch, ddydd lau, Hydref 3, a cheir cwmni Mrs Miriam Lewis a rhai o aelodau capel Llysfaen bryd hynny.

Y Cyfarfod Plant: Bydd y Cyfarfod Plant yn aildechrau yn festri Ebeneser brynhawn dydd lau, Hydref 3. Mae croeso cynnes i blant oed ysgol gynradd i ddod i'r cyfarfodydd eleni eto. Bydd y plant yn dod yno ar eu hunion o'r ysgol ac yn aros am awr.



Gwilym Williams yn yr Arddangosfa a drefnodd yn yr Amgueddfa Lechi yn ddiweddar.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn y Caban, nos Lun, Medi 23. Y gŵr gwadd oedd Mr Norman Williams, Brynrefail.

Cyngor Eglwysig: Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Cyngor Eglwysig Deiniolen yng Nghapel Cefnywaun am 7 o'r gloch, nos Lun, Medi 30.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Elfed Morgan Morris, Llechwedd, Deiniolen, am fod yn llwyddiannus, gydag anrhydedd, mewn arholiad telyn, gradd 1.

Marwolaeth: Yn sydyn ac annisgwyl, ddydd Mawrth, 27 Awst, bu farw John Elwyn Williams, yn 72 mlwydd oed, a hynny ddau ddiwrnod yn unig wedi iddo ef a'i wraig, Bessie, ddychwelyd adref ar ôl treulio wythnos o wyliau gyda ffrindiau yn Llangefni.

Cafodd John Elwyn a'i frawd, Sammy, eu geni yn Y Foel, Deiniolen, ond daethant i fyw i Pentre Helen ar ddechrau'r rhyfel. Bu John Elwyn a Bessie yn ffyddlon iawn yng Nghapel Cefnywaun cyn iddynt symud i fyw i Bishop Auckland, Swydd Durham, 32 o flynyddoedd yn ôl.

Cyn ei ymddeoliad roedd John Elwyn yn ddarlithydd yng Ngholeg Billingham ac roedd yn gynghorwr gyda'r Gwasanaeth Cyngori. Bu'n gadeirydd Cymdeithas Gyrraeg Durham a Chymdeithas Gymraeg Teeside. Ar un cyfnod arferai drefnu gwasanaethau Cymraeg unwaith y mis yng Nghapel yr Eglwys Unedig yn Bishop Auckland ble y bu'n drysorydd am nifer o flynyddoedd.

Roedd yn aelod o fwrdd llywodraethwyr y coleg yn Stockton-on-Tees ac Ysgol St. Anne yn Bishop Auckland. Gwasanaethai fel archwiliwr gyda'r Institute of

Management a'r National Examination Board of Management and Supervisors, a'r National Examination Board of Management and Supervisors, a byddai'n archwilio gwaith a chyf-weld efrydwyr yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr; Coleg y Brifysgol, Bangor; Coleg Llandrillo; a Choleg Menai. Rhoddai ei wasanaeth hefyd i ddysgu oedolion i ddarllen ac i ysgrifennu.

Bu'r anrladd ddydd Llun, 2 Medi, gyda gwasanaeth yng Nghapel yr Eglwys Unedig, Bishop Auckland, ac yn dilyn yn Amlogsgfa Durham, lle daeth nifer fawr o'i gyfeillion — nifer ohonynt yn wreiddiol o Gymru — ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w weddw, Bessie, yn ei galar.

Diolch: Dymuna Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am gofio amdani mor hael ar ei diwrnod arbennig.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn y Ganolfan ar Fedi 16. Estynnodd y llywydd, Mrs Buddug Jones, groeso cynnes i'r aelodau, a chroeso arbennig i'r aelodau newydd. Cyflwynodd y siaradwraig wadd, Angharad Tomos o Lanwnda.

Cawsom amser difyr yn ei chwmni. Soniodd am y profiad o ysgrifennu dyddiadur ac annog pawb i roi cynnig arni. Yna soniodd am ei llyfr cyntaf, *Yma o Hyd* ac am y llyfrau a enillodd iddi Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ac fe soniodd hefyd am y llyfrau plant a'r cymeriadau lliwgar sydd ynddynt. Diolchwyd iddi gan Mrs Iona Richards. Gwnaed y te gan Mrs M. Morris, Mrs A. Griffith a Mrs Iona Richards.



Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava







Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £ £ £
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Elfion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



ANTUR WAUNFAWR

SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei

Jams ★ Briwgig ★ Siampw

Clustogau ★ Ewyn Baddon

Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.

Ffôn: (01286) 650721

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN

FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Rhai o gerddwyr Taith Gerdded Noddedig Pwyllgor y Neuadd.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Chwedd o fechgyn ddechreuodd yn nosbarth Mrs Thomas eleni, sef Robat, Chris, Morys, Griff, Andrew a Joshua. Estynnwn groeso mawr i'r bechgyn ar ddechrau eu gyrfa yn yr ysgol. Yn yr un modd estynnwn groeso i Miss Davies sydd bellach yn dysgu'n llawn-amser yn yr ysgol gan ofalu eleni am blant Bl. 4 a 5.

Fel rhan o'u thema aeth plant Bl. 6 i arddangosfa Anne Frank a gynhaliwyd yn y Coleg Normal. Dan ofal Mr Bob Morris cawsom ein tywys o amgylch yr arddangosfa a oedd yn olrhain bywyd a chyfnod Anne Frank. Yna aethom i weld fideo a ddangosai ysgol Anne Frank ynghyd â'i chuddfan am ddwy flynedd. I gloi, cawsom weld rhan o'r synagog ym Mangor a leolwyd yn yr arddangosfa ei hun. Mwynhaodd y plant y profiad yn fawr iawn ac mae'n sail arbennig i adeiladu arno oddi mewn i thema'r tymor. Diolch unwaith eto i'r Cyfeillion am eu caredigrwydd o ysgwyddo'r cyfrifoldeb o dalu am gostau'r bws — gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Urdd Adran Bentref: Bydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn ar nos Fawrth cyntaf wedi gwyliau hanner tymor, o 6 tan 7 o'r gloch, yn y Neuadd Gymuned. Croeso i bob plentyn o'r oedran Blwyddyn 2 i fyny i ymaelodi.

Gŵyl Gerdd Dant: Wedi un ymdrech lew cyrhaeddwyd ymhell dros y nod o £250. Unwaith eto diolchir i bawb

am y gefnogaeth a dymunir pob llwyddiant i'r Wyl ac i'r holl gystadleuwyr ar Dachwedd 9fed.

'Penisarwaun aeth â hi': Nos Sadwrn, 14 Medi, cynhaliwyd Helfa Drysor, a noson gymdeithasol er budd yr Wyl Gerdd Dant yng ngofal Walter a Menai Williams. Enillwyr yr Helfa oedd Ann a Dafydd Ifans. Cyflwynwyd Plât yr Wyl iddynt. Yn dynn wrth eu sodlau roedd John Eifion a David Phillips a'r hogiau Mathew, Gethin a Siôn. Cawsant grysau-T. Bu'n rhaid rhoi map o'r ardal i Wendy a Marina a'r genod rhag ofn iddynt golli'u ffordd rhywbryd eto! Diolch i Menai a Walter am noson ddifyr ac addysgiadol.

Gwellhad: Cofion annwyl atoch chwi sy'n sâl yn y pentref. Gobeithio fod Rhys Owain, 3 Bryn Eglwys, yn gwella wedi'i driniaeth yn yr ysbyty. Brysia wella Rhys.

Colli Anwyliad: Cydymdeimlir yn ddwys a ddiffuant â Jean a Gwynfor a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, nain a hen nain addfywn a gofalu, sef Mrs Gwladys Richardson, Llanrug.

Nos Wener, 13 Medi, daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Eluned Porter, Llys y Gwynt gynt. Cyn iddi gael ei chornelu gan waeledd wedi damwain bu'n llawn bwrlwm ac asbri a chefnogai hi a'i chyfeillion holl weithgareddau'r pentref, ac yn arbennig yr Eisteddfod Bentref, y Carnifal ac Eisteddfod Ffug yr Eco. Trysorai darian yr

eisteddfod honno a enillwyd gan y pentref dair gwaith allan o bedair. Cofir hi am ei hiwmor a'i chwerthiniad iach ynghyd â'i charedigrwydd a'i hoffter o blant. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Pat, Arnold a Ffiona ac â Len, Carol, Nia a Mark a'r teulu oll.

Llongyfarchiadau brwd i Llion Roberts, Tai Croesion, ar ei lwyddiant yn yr Arholiadau Uwch a dymunwn yn dda iddo yn y coleg yn Lerpwl.

Llongyferchir hefyd Huw Tegid ar benodi yn brif-ddisgybl y bechgyn yn Ysgol Brynrefail; a Lois Dafydd ar ei phenodiad yn ddirprwy, brif-ddisgybl y merched. Rydym yn falch iawn o'r ddau ohonoch, a phob dymuniad da i chwi.

Ysgol Sul Bosra: Braf oedd croesawu yr aelodau ifanc i'r Ysgol Sul a chroesau yn gynnes aelod newydd, sef Ifan Griffith sydd wedi hen ymgartrefu ac ymuno yn y gweithgareddau.

Pwyllgor Neuadd: Enillwyr Clwb Cant mis Gorffennaf oedd: 1, Ann

Gymuned. Bydd cystadlaethau o bob math a'r beirniaid fydd Mr John Meirion Morris a'i briod Gwawr Morris, Brynrefail. Mae catalogau 'Welsh Ivory' ar gael gan Phyllis Ellis os oes diddordeb gan unrhyw un.

Clwb Ti a Fi: Dyma glwg i'r rhai dan oedran ysgol ac fe'i cynhelir yn Neuadd Eglwys Santes Helen, o 10 tan 11 fore Gwener o 6 Medi ymlaen. Croeso cynnes i bawb sydd â phlant bach o'r oedran hwn.

Clwb Ieuencid: Bydd y Clwb yn cael ei gynnal yn y Neuadd Gymuned ar nos Fawrth am 7.30 o'r gloch gyda'r arweinydd, Mr Ian Jones. Croeso i bawb dros dair ar ddeg oed.

'Ten Talent': Aeth criw o blant o'r pentref i stiwdio Barcud i gymryd rhan yn y rhaglen sydd i'w darlledu cyn bo hir. Cawsant hwyl a diwrnod i'w gofio.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau unwaith eto i Myfanwy a Dic Parry ar ddod yn nain a thaid. Ganwyd mab, Cai Glyn, i Nia a William a brawd bach i Megan. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.



Enillwyr Helfa Drysor yr Wyl Gerdd Dant.

Paterson; 2, Jean Roberts, Tai Croesion; 3, Gwen Roberts, Weirglodd Goch. Enillwyr mis Awst oedd: 1, Annette Webb; 2, Megan Jones, Perthi; 3, R. Roberts, Pen-y-groes.

Fore Sadwrn, 14 Medi, trefnwyd Taith Gerdded Noddedig yng ngofal Leslie Larsen. Daeth nifer dda o oedolion a phlant i grwydro'r llwybrau o gwmpas Tan y Coed, Tai Madog, Craig y Dinas, Braich y Dinas a Cae Corniog. Yna croesawyd ni gyda phaned a bisgedi yn y Neuadd Gymuned. Diolchir i Leslie am wneud y trefniadau ac i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y weithgaredd. Roedd pawb wedi llwyr fwynhau y cerdded ar fore mor gynnes a braf.

Nos Iau, 31 Hydref, cynhelir Noson Calangaeaf yn y Neuadd

Gair o Ddiolch: Dymuna Llion Roberts, Tai Croesion, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r dymuniadau da wedi'i lwyddiant yn yr arholiadau.

Dymuna Jean a Gwynfor Roberts, ddatgan eu diolchgarwch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad, yn gardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a rhoddion tuag at Gronfa'r Cancr, wedi marwolaeth Mrs Gwladys Richardson, mam dyner Jean a'r diweddar Joyce.

Cais am Lun: Daeth galwad ffôn i mi gan gyfaill yn holi os oes gan unrhyw un ym mro'r Eco lun Cerdyn Post o Eglwys Llandinorwig. Os oes gennych lun o'r fath a fydddechystal â chysylltu â 872407. Diolch o galon.



Hogia newydd yr Ysgol Gymuned.

Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro Nos Wener olaf bob mis

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



Plant newydd dosbarth Mrs Brookes.

Gŵyl Gerdd Dant: Bydd pwyllgor apêl Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon yn cynnal Bore Coffi yn y Bristro am 10.30 o'r gloch, ddydd Gwener, Medi 27.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhelir cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn festri Capel Coch, am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Hydref 1. Y Parchg Iorwerth Jones-Owen, Caernarfon, fydd y siaradwr gwadd. Cafwyd cynulleidfadau dda ym mhob cyfarfod y llynedd, ac estynnir croeso cynnes i eraill eto i ymuno â'r Gymdeithas eleni. Mewn pwyllgor a gynhaliwyd nos Fawrth, Medi 17, etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn — Llywydd: Y Parchg John Pritchard; Ysgrifennydd: Mr Gareth Jones; Trysorydd: Miss Dilys Roberts. Diolchwyd i Mrs Helen Morris am ei gwaith fel trysorydd am sawl tymor.

Capel Coch: Derbyniwyd y canlynol yn aelodau o'r eglwys yn ystod yr oedfa nos Sul, Medi 8: Llinos Hughes, Lliwen Hughes, Sandra Nisbett, Sara Pepper, Iona Vaughan, Elinor Gray Williams a Manon Lloyd Williams.

Mae'r Ysgol Sul wedi ailddechrau wedi gwyliau'r haf. Cynhelir yr Ysgol Sul am 2 o'r gloch. Mae croeso cynnes yn disgwyl unrhyw blentyn a fyddai'n hoffi dechrau Ysgol Sul o'r newydd. Cysylltwch â'r gweinidog

am ragor o fanylion — neu dowch draw ryw bawn Sul.

Bydd y Cyfarfod Plant yn ail-ddechrau yn fuan ar brynawniau Mawrth, a'r un fydd y trefniadau ag arfer. Bydd y plant yn dod ar eu hunion i festri Capel Coch o'r Ysgol, un ai am 2.45 o'r gloch neu am 3 o'r gloch. Bydd y cyfarfod yn gorffen am 4 o'r gloch.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr mis Awst oedd — £35: Mrs L. Williams, Tan y Fron, Fachwen (182); £25: Mrs H. Sharp, Maes Padarn (146); £15: Delyth Roberts, 50 Maes Padarn (70); £10: Mr G. Jones, Stryd yr Wyddfa (75); £5: Mrs G. Stott, Garth Maelog (51). Enillwyr mis Medi — £35: Mrs A. Fleming, Maes Padarn (49); Miss L. Pritchard, Berth (196); £15: Mr I. Thomas, Maes Padarn (91); £10: Mrs E. Jones, Delfryn (120); £5: Mrs B. Hughes, Coed-y-glyn (132).

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones, yn Eglwys St. Padarn, nos Iau, 12 Medi. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mr Ralph Jones, a chroesawodd y llywydd yr aelodau gan ddymuno'n dda i amryw oedd wedi bod yn wael ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod yr haf.

Yn absenoldeb y gŵr gwadd, y Parchg Emyr Owen, treuliwyd y

noson yn trafod y rhaglen a drefnwyd gan y swyddogion ar gyfer y tymor newydd.

Mrs Moreen Lennon a Mrs Beryl Owen — sydd erbyn hyn yn gwella gartef ar ôl bod yn yr ysbyty — oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl. Enillwyd y raffl gan Mr Ralph Jones.

Jerusalem: 'Dylanwadau' oedd pwnc trafod y Gyfeillach a gyfarfu ar 3 Medi, gyda Hugh R. Jones yn y gadair. Cafwyd gair gan bob un o'r aelodau am y dylanwadau yn eu bywydau — o ddyddiau ysgol hyd yn awr — a bendithiol iawn oedd rhannu'r profiadau a'r sgwrsio, a ddilynwyd gyda lluniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch ddydd Mawrth, 1 Hydref, a'r gŵr gwadd fydd y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.

Undeb y Mamau: Bawn Mawrth, 10 Medi, ail-gychwynwyd y cyfarfodydd wedi misoedd yr haf. Cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parchg Philip Hughes yn gweinyddu. Dilynwyd gyda'r cyfarfod busnes. Cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar aelod ffyddlon Mrs Dilys McKean a fu farw ym mis Gorffennaf.

Anfonwyd ein dymuniadau am wellhad llwyr a buan i Mrs Beryl Owen, Maes Padarn, a Mrs AngesOwen, Stryd Capel Coch. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Muriel Morris ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 65. Croesawyd yn ôl i'r gangen Mrs Nan Owen, Stryd Efrog.

Diolchodd Mrs Betty Humphreys i'r ddwy oedd yn gofalu am y te blasus, sef Mrs Dilys Phillis a Mrs Jean Roberts, ac hefyd i'r Rheithor; ac fe eiliwyd y diolch gan Mrs Betty

Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Kathleen Williams.

Dymunwyd taith ddiogel i'r Rheithor sydd yn mynd ar ymweliad ag Uganda yn ystod mis Hydref.

Y Clwb Pêl-droed: Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi bod timau'r clwb pêl-droed wedi dechrau chwarae ar gae Ffordd Padarn unwaith eto y tymor hwn. Ni fu'n bosibl defnyddio'r cae o gwbl y tymor diwethaf oherwydd y gwaith carthffosiaeth a wnaed yn y pentref. Mae golwg dda ar y cae ar hyn o bryd. Gobeithio bod y gwaith a wnaed arno wedi bod yn llwyddiannus, a dymuniadau gorau am dymor llwyddiannus i dimau'r Clwb. Mae'n amlwg bod dod adref wedi bod o help yn barod gan fod tîm cyntaf Llanberis ar frig y gynghrair yn gynnar yn y tymor.

Diolchiadau:

Dymuna John a Mattie Hughes, Tan y Clogwyn, ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuantaf am y llu cyfarchion a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem ar 25 Awst.

Dymuna Twm John Roberts, 83 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a' galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod adref.

Dymuna Beryl a Gordon, 46 Maes Padarn, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem ar 1 Medi.

Dymuna Kelly Marie Williams, 6 Coed-y-ddôl, ddiolch yn fawr iawn am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gobowen.

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN


Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia




★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD
O BROFIAD YN Y MAES

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

Dymuna Jan, Rob a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arfon Phillips, 9 Coed-y-glyn ar ddathlu eu Priodas Aur ar 2 Hydref — oddi wrth y teulu i gyd.

Pêl-droed y Plant: Cynhaliodd timau pêl-droed plant Llanberis daith gerdded noddedig ar fore Sadwrn yn ddiweddar i godi arian at gynnal y timau. Cerddodd rhai o'r plant a'u rhieni o Lanberis i Nant Peris ac yn ôl. Diolch i'r plant a'u rhieni am yr ymdrech a diolch i bawb a roddodd arian nawdd. Diolch yn arbennig i Emlyn Baylis am ddarparu lluniaeth ar ein cyfer yn Nhy'n Llan.

Etholiad: Cynhaliwyd is-etholiad y Cyngor Cymuned ddydd Iau, 5 Medi, ac etholwyd Mrs Eirlys Ellis, Rhes y Cae. Llongyfarchiadau iddi.

Teyrnged i'r diweddar Gwilym Roberts, Fron Oleu: Ni fwriadaf olrhain hynt a helynt Gwilym yn yr ychydig eiriau hyn o deyrnged, ond yn hytrach, seiliaf fy sylwadau o'm hadnabyddiaeth ohono fel cymydog a chyfaill.

Bymtheg mlynedd yn ôl y daeth Mattie a minnau i fyw i Dan-y-clogwyn, sydd gyferbyn â'r Fron Oleu. O'r cyfwrbyn cyntaf sylleddasom ein bod wedi ein bendithio mewn cymdogion da, sef Doris a Gwilym. Yn naturiol fe dyfodd cyfeillgarwch diffuant rhyngom ac, wrth edrych yn ôl, sylweddolaf ar rinweddau amlwg yng nghymeriad a pherson Gwilym.

Yr oedd yn gymeriad trefnus a thaclus. O ran pryd, gwedd a gwisg roedd Gwilym bob amswer yn dactylus a thrwsiadus boed ar lethrau'r ddinas neu ar Stryd Fawr y pentref ac fe adlewyrchid y taclusrwydd hwnnw ar ei dyddyn hefyd. Roedd y caeau yn dactylus, y cloddiau yn drwsiadus, yr offer yn drefnus ac mewn cyflwr da, a'r defaid mewn cyflwr ardderchog ac yn fodlon yn eu cynefin eu hunain. Ni welais erioedd ddefaid yn crwydro o'r Fron Oleu, na, roedd y bugail mor ofalus ohonynt.

Gan fod Gwilym yn meddu ar feddwl trefnus nid rhyfedd mai ei brif ddiddordeb fyddai olrhain achau ei deulu a hanes bro ei febyd. Treuliodd oriau di-rif uwchben hen ddogfennau yn Archifdy'r Sir ac yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a llwyddodd i fynd ar drywydd ei deulu yn ôl am ganrifoedd lawer yn ogystal â hanes plwyf Llanberis. Yn wir y

mae llawer wedi derbyn graddau prifysgol am lai o waith ymchwil nag a wnaed gan Gwilym. Croniolodd ffrwyth ei lafur yn ofalus a mawr hyderaf y bydd y llafur hwn o eiddo Gwilym yn cael ei gadw mewn man diogel, megis Archifdy'r Sir, er budd ymchwilwyr y dyfodol.

Gŵr tawel â dawn tewi oedd Gwilym; yn ddiymhongar a bonheddig. Oherwydd ei natur addfwyn, ei ysbryd goddefgar a'i berson siroli, perchid ef gennym oll.

Yn ei alwad sydyn o'i gynefin fe gollasom gymeriad arbennig. Erys bwls ar ei ôl ar yr aelwyd yn y Fron Oleu, ar lethrau'r Ddinas, a thrwy'r ardal.

Anrhydedd i mi oedd cael adnabod Gwilym, cael cyfeillachu ag ef gan ddysgu yn gyson yn ei gwmni.

JOHN H. HUGHES

ER COF annwyl iawn am Goronwy Owen Glyn Roberts, a fu farw 26 Hydref 1994, efo cariad a hiraeth — Sarah.



Taith gerdded y timau pêl-droed.



Dosbarth newydd Mrs Jones yn Ysgol Dolbadarn.

CASGLIAD YMCHWIL Y GALON

Cynhaliwyd casgliad o ddrws i ddrws Ymchwil y Galon yn ystod mis Gorffennaf, a dymuna Cangen Caernarfon a'r Cylch ddiolch i'r casglyddion am eu parodrwydd; ac i drigolion bro'r Eco am eu haelioni i'r achos teilwng hwn.

Dyma fel y casglwyd:

Bethel.....	£107.91
Caeathro.....	£51.10
Cwm-y-glo.....	£67.91
Ceunant.....	£12.17
Deiniolen.....	£230.41
Dinorwig.....	£47.05
Llanberis.....	£285.67
Llanrug.....	£310.16

Llanddeiniolen.....	£62.84
Nant Peris.....	£24.15
Penisarwaun.....	£84.59
Rhyd-ddu.....	£45.60
Waunfawr.....	£279.90

Cynhelir Ffair Hydref

Ymchwil y Galon ar 24 Hydref yn yr Institiwt, Caernarfon, am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Mae cardiau Nadolig

Cymraeg Ymchwil y Galon yn

awr ar werth gan Mrs Mai Parry,

2 Bryn Heli, Ffordd Glan-

ffynnon, Llanrug. Ffôn: (01286)

674385.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar Ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/Ffacs: (01286) 672619

Richard S. Humphreys

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181

(0831) 326160




LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang

o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi

mewn stoc — allwch chi

fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Llyfr o Farddoniaeth: Llongyfarchiadau i T. Arfon Williams, Y Wern, ar gyhoeddi ei drydedd casgliad o'i gerddi *Cerddi Arfon*. Gwelir llun o hen blasty'r Wern yn yr eira ar y clawr a cherddi o dan y teitl 'Ebrill yn Y Wern' a 'Croeso'r Wern'. Y cyhoeddwy'r yw Cyhoeddiadau Barddas a'r pris yw £4.95.

A oes talent i ysgrifennu hanes Caeathro ymhlith trigolion y cylch tybed?

Tynfa Fisol: Enillwyr tynfa Cymdeithas y Cae Chwarae am fis Medi oedd — £40: Oliver Thomas, Llwyn Celyn (28); £25: Geoff Drake, Castellmai (5); £15: Liam Rowlands, 4 Glan Gwna (40); £5: Dwi a Catrin Jones, 13 Erw Wen.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus. Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ar nos Lun, 21 Hydref, am 8 o'r gloch yn y Pafiliwn ar y cae chwarae.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

HYDREF

6: DIOLCHGARWCH (2)

13: Parchg Ronald Williams, Salem (2)

20: Y Gweinidog (5.30)

27: Mr Dafydd Iwan (2)

TACHWEDD

3: Parchg Trefor Jones (2)

Bydd croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau hyn.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i deulu Tŷ Capel, Ceunant, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, Mrs Louie May Jones. Anfonwn ein cofion cynnes at y teulu.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA




Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI · DRYSAU
YSTAFELLOEDD HAUL

UPVC



Gadewch inni roi pris — am ddim

Ffoniwch: (01286) 871774
2 Tai Bwthyn
PENISARWAUN



Anfonwyd y llun hwn atom gan Mr Meirion Thomas, Shâlom, Pentre Berw (gynt o 61 Maes Padarn). Oes rhywun yn gwybod pa flwyddyn y tynnwyd y llun? A phwy ydi'r plant?

Taith Côr Meibion Dinas Bangor i Awstria

Gan fod nifer dda o fro'r Eco yn aelodau o Gôr Bangor dyma adroddiad o daith hynod lwyddiannus a wnaed gan y Côr i Awstria yn ystod mis Awst eleni.

Yn fuan fore Sadwrn, 17 Awst, aeth 57 o aelodau a'u gwragedd i faes awyr Manceinion i hedfan i Munich yn yr Almaen. Ar ôl taith o awr a hanner o faes awyr Munich cyrhaeddwyd pentref hyfryd Söll yng nghanol mynyddoedd a phrydferthwch y Tirol yn Awstria. Dyma gartref y Côr am wythnos fythgofiadwy. Dwy flynedd yn ôl daeth côr cymysg y Kufsteiner Singkreis o Kufstein ger Söll i Fangor ar ôl y cysylltiadau a wnaed gan James Griffith, arweinydd Côr Bangor, sydd yn ymwelg â Söll yn flynyddol. Y mae arweinydd y côr Awstraidd yn byw ym mhentref Söll ac yn athro ysgol yno.

Wedi cyrraedd cafwyd croeso cynnes iawn gan aelodau'r côr cymysg. Anodd iawn yw disgrifio prydferthwch Söll — mae'n debyg iawn i Gymru ond fod

mwy ohono!

Bore Sul, Awst 18, gwahoddwyd y Côr i ganu yn ystod gwasanaeth Yr Offeren yn eglwys hardd Söll a chyda Lowri Roberts Williams wrth yr organ canodd y Côr dri darn addas i wasanaeth y Cymun, sef 'Gogoiant Duw' yn lle'r 'Gloria, Sanctus' (Schubert) yn Gymraeg ac Almaeneg; a'r emyn 'O Iesu Mawr' ar y dôn 'Deep Harmony' yn ystod y Cymun. Roedd yr eglwys fawr yn orlawn.

Gyda'r hwyr canodd y Côr mewn cyngerdd yn yr eglwys ac wedi canu ysbrydoledig y Côr safodd y gynulleidfa eang ar eu trad i gymeradwyo yr hyn a fu'n un o berfformiadau gorau'r Côr hyd yn hyn. Yr unawdwyr yn ystod rhai o'r darnau oedd Ken Williams a Harry Jones a Lowri Prys Roberts Williams ar ei gorau wrth y piano.

Yn ystod yr wythnos cafwyd un cyngerdd arall ym mhentref Thiersee mewn theatr lle perfformir dramâu'r dioddefaint bob pedair blynedd yn yr un traddodiad ag Oberammergau. Roedd hwn hefyd yn gyngerdd da iawn hefo Lowri yn cyfeilio, Ken Williams a Norman Evans yn unawdwyr efo'r Côr a James Griffith yn arwain.

Cafwyd teithiau i Salzburg,

man geni Mozart, ac hefyd ar yr Hochalpenstrasse, sef y ffordd ryfeddol honno sy'n dringo i ddwbl uchder yr Wyddfa. Cafwyd hefyd nosweithiau Tiroliaidd efo aelodau'r ddau gôr yn canu ac yn dawnsio — yr oedd dawn dawnsio rhai o ardal yr Eco yn syfrdanol i bawb!

Wedi wythnos hynod lwyddiannus daeth amser i ddychwelyd adref gyda llu o atgofion hapus am wlad braf, cyfeillion llon, a môr o ganu. Y mae dyled y Côr yn fawr iawn i David Price, yr ysgrifennydd, a David Roberts, y trysorydd, am eu paratodau a'u gwaith caled yn sicrhau ymweliad llwyddiannus dros ben ym mhob ystyr.

JAMES GRIFFITHS

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr

Nwy

Cofrestredig

Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Parti Clychau'r Grug: Wedi seibiant gwyliu'r haf, y mae'r genod yn eithaf prysur ar gychwyn tymor newydd gan ddiddori ymwelwyr yng ngwesty'r Fictoria, Llanberis; Llanfairfechan ar 26 Tachwedd; ac yn Deganwy ar 3 Rhagfyr. Byddant yn cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhelir yng Nghaernarfon ar 9 Tachwedd. Dymunir pob hwyl a llwyddiant iddynt.

Merched y Wawr: Estynnwyd croeso cynnes gan y Llywydd, Mair Huws, i aelodau ffyddlon y gangen ac i aelodau newydd ar ddechrau tymor newydd o amrywiol weithgareddau. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â Jean Roberts yn ei phroffedigaeth o golli'i mam. Braf oedd cael croesawu Meirwen Lloyd a Nan Humphreys yn ôl wedi'u salwch. Anfonir cofion annwyl at Joan a phawb arall sy'n sâl yn y pentref. Da deall fod Adrian, mab Doris, yn gwella. Llongyferchir holl blant y fro ar eu llwyddiannau yn yr amrywiol arholiadau. Diolchwyd i Margaret, Bethanne, Myfanwy, Ann Lloyd ac Ann Ifans am eu parodrwydd i gynrychioli'r gangen ym Mhabell Merched y Wawr yn Sioe Llanelwedd. Cytunwyd i ddarparu lluniaeth ysgafn yn ystod Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail yn ystod mis Mawrth.

Gŵr gwadd y noson agoriadol oedd Mr Geraint Percy Jones, cyn athro Cymraeg Ysgol Amlwch. Os mai athrylith am ddadansoddi enwau lleoedd oedd ei frawd — y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones — athrylith ar feicio a chasglu ffyrdd yw Geraint. Aeth ef a Meira, ei wraig, i feicio a gwersylla am ddeng wythnos yn Seland Newydd. Dangosodd sleidiau ohonynt yn beicio ar hyd ffyrdd gwastad, tawel gyda golygfeydd unigryw. Llwyddasant i feicio 1,780 o filltiroedd yn ystod y cyfnod hwn gan gyfarfod â Chymry o Laneilian, Talsarnau a Llanrwst. Diolchwyd iddo am fynd â ni am drip i bellafoedd byd, a hynny am ddim, gan Meirwen Lloyd. Enillwyd y raffl gan Nan a diolchodd Heulwen i Meryl, Nan, Pat ac Ann am wneud y baned.

Trefnir bws i fynd i Theatr Gwynedd, nos Fawrth, 1 Hydref, i weld perfformiad o 'Tua'r Terfyn'

gan Iwan Edgar. Bydd aelodau cangen Deiniolen yn ymuno â ni, ac mae croeso i aelodau ddod a ffrindiau hefyd. Bydd y bws yn cychwyn ar ei daith o Ddeiniolen am 6.30 p.m., Penisarwaun 6.40, ac yna yn Llanrug am 6.45. Pris y bws fydd oddeutu £1 y pen.

Gwahoddir aelodau'r gangen i ymuno â changen Caernarfon i weld gwaith cwiltio gyda Eira Wyn Huws (chwaer Megan Roberts) ar 10 Hydref.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Croeso'n ôl i bawb ar ôl gwyliu braf yr haf! Mae rhai aelodau newydd wedi ymuno â staff yr ysgol — Miss Eleri Evans, adran y babanod; Miss Debbie Jones, cymorthydd Craig Hemington. Hoffem ddiolch i Mrs Linda Jones am ei gwaith caled yn yr ysgol ar hyd y blynyddoedd a phob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.

Ffarweliwn hefyd â Miss Bethan Denham gan ddiolch iddi am ei gwaith yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i Miss Awen Griffith ar enedigaeth ei merch, Fflur Haf.

Bu nifer fawr o blant yn brysur iwn yn ystod y gwyliu. Bu Gareth

EISTEDDFOD LLANRUG

Nos Wener, 11 Hydref
yn Ysgol Brynrefail
am 5.30 o'r gloch

NOSON CELF A CHREFFT

Nos Lun, 7 HYDREF 1996
Dewch â'ch cynnyrch i'r
Ysgol Gynradd
erbyn 6 o'r gloch

Roberts, Bl. 6, yn cystadlu yng Ngemau Trawsblaniad yng Nghaerdydd. Enillodd fedalau arian am nofio ac am chwarae pêl plu. Enillodd Marvin Pritchard, Bl. 5 fedal efydd mewn cystadleuaeth Karate yn ddiweddar. Bu Dafydd Thomas, Bl. 5 yn llwyddiannus wrth nofio i Glwb Nofio Caernarfon. Cafodd Daniel Jones, Bl. 5 lwyddiant yn mabolgampau'r 'Cubs' a chafodd Beverley, Ffion ac Iola lwyddiant yng nghystadleuaeth y seindorf.

Cyn gwyliu'r haf bu Emma Catherine Williams yn brysur yn ffilmio gyda chwmni teledu Lliffon ac edrychwn ymlawn i weld y cynhyrchiad ar y teledu.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhelir cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn y Ganolfan, nos Lun, 14 Hydref, am 7.30 o'r gloch.

Lleisiau'r Gweunydd, o dan arweiniad Einir Wyn, fydd yn ein diddori. Trefnwyd rhaglen ddiddorol ac amrywiol ar gyfer y tymor newydd. Estynnir croeso cynnes i bawb — aelodau hen a newydd — i ymuno â'r Gymdeithas. Bydd y tâl aelodaeth, fel y llynedd, yn £2.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Huw Gwilym, Llidiart Wen, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed; ac hefyd ar gael ei benodi yn brif-ddisgybl y bechgyn yn Ysgol Syr Hugh Owen.

Ymdeoliad: Dymuniadau gorau i Mrs Olwen Owen, Noddfa, Stad Tref Eilian, ar ei hymddeoliad o'i swydd fel gofalwraig cartref yn y pentref.

Gwaeledd: Anfonwn ein cofion cynhesaf i Mrs Parry Williams, Gwynfa, a fu am gyfnod yn yr

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos lau, Medi 12fed, dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones, Rhandir. Roedd y defosiwn dan ofal Mrs Ellen George, Sŵn yr Engan. Croesawodd y llywydd y gŵr gwadd, sef Mr Norman Evans, Niwbwrch. Rhoddodd ddarlun cofiadwy o swyddogaeth Tri Phren ym mywyd a gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Diolchwyd iddo am ei anerchiad gan Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog. Paratorwyd lluniaeth gan Mrs Ifanwy Jones a Mrs Lowri P. Roberts Williams. Ar derfyn y cyfarfod etholwyd swyddogion ar gyfer tymor 1997 fel a ganlyn — Llywydd: Mrs Verna Jones; Ysgrifennydd: Mrs Lowri P. Roberts Williams; Trysorydd: Mrs Ellen George. Diolchwyd i'r swyddogion blaenorol am eu gwaith trylwyr. Bydd cyfarfod olaf am 1996 nos lau, Hydref 10fed, yng nghwmni dwy o'r aelodau, Mrs Ifanwy Jones a Mrs L. P. Roberts Williams yn rhoi argraffiadau am ymweliad Côr Meibion Dinas Bangor â Canada.

Eglwys M.C. Brynrefail: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod y Suliau nesaf:

HYDREF

6: Mr J. H. Hughes, Llanberis (5.30)

13: Mr Evan Jones, Bontnewydd (5.30)

20: Dr G. Arthur Jones, Penrhosgarnedd (10)

27: Parchg D. Myfanwyd Davies, Y Felinheli (10)

TACHWEDD

3: GWASANAETH DIOLCHGARWCH (5.30)

Ysbyty. Anfonwn ein cofion i bob un o'r pentrefwyr sydd yn wael ac yn gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd.

Croeso Adref o'r ysbyty i Eirian, 2 Ael-y-bryn, a dymunwn iddi wellhad llwyr a buan.

Gwella: Da gweld fod Martin Roberts, Sŵn-y-gwynt, yn gwella wedi iddo gael damwain car yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Ann a Geraint, Tir na Nog, Henllan, Dinbych, ddiolch am y cardiau ar achlysur dathlu eu priodas arian ym mis Awst.

Dymuna Gwenan Haf, Tir na Nog, Henllan, Dinbych, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar dathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed yn ystod mis Awst.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD

BANGOR
(01248)
354646



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm

★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

ARDDANGOSFA O WAITH HENRY CHAMBERS JONES AM Y FELINHELI AMGUEDDFA LECHI CYMRU, LLANBERIS 7 MEDI — 31 HYDREF 1996



Tudur Jones, Swyddog Arddangosfeydd Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, gydag Arddangosfa Henry (Huxley) Jones

Bydd delweddau o'r diwydiant allforio llechi enfawr i'w gweld yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, yn ystod misoedd Medi a Hydref. Mae dehongliad Henry Chambers Jones o'r porthladd prysur yn un bywiog a lliwgar ac mae wedi llwyddo i bortreadu prysurdeb y porthladd hwn yn nyddiau ffyniant. Yn anffodus bu Mr Jones, a gâi ei adnabod fel Henry Huxley, farw y llynedd yn 56 mlwydd oed. Mae'r arddangosfa hon yn deyrnged i'r arlunydd a'i waith.


Ganed Henry Chambers Jones yn Y Felinheli, y pentref a gafodd ei greu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif

ar bymtheg pan oedd galw am lechi ar gynnydd. Dechreuodd bortreadu'r golygfeydd bywiog o'r fasnach allforio yn 1976. Ysyaeth, mae'r gweithgaredd ar y cei a welir yn ei waith wedi hen ddiflannu, ond bydd y paentiadau hyn yn dwyn i gof ddyddiau coll y diwydiant llechi.

'Yn sicr mae arddull ffeithiol, yn hytrach nag argraffiadol, rhai o'i baentiadau yn deillio o'i hyfforddiant fel drafftismon a'r ymchwil drylwyr a wnaeth i'r pwnc,' eglurodd ei frawd, Reg Chambers Jones sydd wedi ysgrifennu llyfr am y diwydiant llechi yn Y Felinheli. 'Cafodd Henry ei ysbrydoliaeth gan y môr a'r mynyddoedd ac er bod y mwyafrif o'i baentiadau mewn olew, byddai hefyd yn gwneud gwaith dyfrliw.'

Gadawodd Henry Chambers Jones Y Felinheli am Bontypridd ac yno y treuliodd ei amser nid yn unig yn paentio ond yn dilyn ei ddiddordeb mawr arall, sef cerddoriaeth. Fel ei dad, cyfansoddodd ddarnau cerddorol amrywiol. Symudodd i fyd y teledu yn 1968 a chafodd gyfle i gymryd rhan yn y byd adloniant ac i gyfansoddi cerddoriaeth thema ar gyfer rhaglenni penodol, megis cerddoriaeth ar gyfer y ffilm 'O.M.', a bu'n rhaid iddo gyflawni'r gwaith hwnnw mewn cwta wythnos o amser.

Mae'r arddangosfa i'w gweld yn yr Amgueddfa Lechi hyd ddiwedd mis Hydref.



DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Cymdeithas Lenyddol Undebol: Bydd tymor y Gymdeithas yn dechrau gyda Noson Agoriadol nos lau, 24 Hydref, am 7.30 o'r gloch yn y Ganolfan. Disgwylir doniau eisteddfodol o'r Waunfawr i ddarparu adloniant a llywydd gwadd y noson fydd David John Jones o Maes Eilian gynt. Bydd cyfle yn ystod y noson i aelodau hen a newydd ymaelodi â'r Gymdeithas a derbyn rhaglen lawn y tymor sydd i ddod.

Plygu'r Eco: Diolch o galon i'r criw da ohonoch ddaeth i blygu'r Eco nos lau, 5 Medi, yn y Ganolfan. Roedd yn galondid gweld cymaint wedi dod, ac o ganlyniad fe lwyddwyd i gwblhau y gwaith mewn awr a chwarter, sydd yn amser arbennig o dda. Diolch arbennig i'r plant a fu'n gefn mawr i ni y tro yma.

Diolchiadau:

Dymuna Griff Pritchard a theulu Pen-dyffryn ddiolch o galon i'w deulu a'i gyfeillion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn fawr hefyd i feddygon Llanberis ac i bawb am y galwadau ffôn.

Hoffai Olwen ac Alun Hughes, 31 Stad y Glorian, Porth Amlwch, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth Caryl, eu merch fach, ar

29 Mehefin. (Ymddiheuriadau bod y diolchiadau yma ar ran y ddau wedi ei gynnwys o dan hanes pentref Llanberis yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.)

Cyngerdd Gŵyl Mihangel Sant a'r Holl Angylion: Cofiwch am y cyngerdd hwn a gynhelir yn Eglwys Crist Llandinorwig, nos Sul, 29 Medi. Arweinir y noson gan Glyn Tomos a bydd yr artistiaid yn cynnwys Côr Meibion Dinas Bangor; Siân Griffith, Fron, Deiniolen; Michelle Roberts, Llanrug; John Eifion Jones, Penisarwaun; a phedwarawd o Seindorf Arian Deiniolen. Mae'n argoeli am noson dda eto gyda'r llwyfan yn cael ei roi i dalentau'r fro. Bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw yr eglwys. Bydd croeso i bawb i'r cyngerdd hwn.

Apêl am Newyddion: Cofiwch mai cyfrifoldeb pawb sy'n byw yn Ninorwig yw sicrhau bod y gohebydd lleol yn derbyn newyddion ar gyfer ei gynnwys yn yr Eco. Ni ddisgwylir i'r gohebydd wybod am bopeth sy'n digwydd ac nid ei fai ef ydyw os nad ymddengys pob newyddion yn yr Eco. Felly, os dymunwch gynnwys unrhyw eitem o newyddion cofiwch mai eich cyfrifoldeb chwi yw cysylltu a'r gohebydd yn y lle cyntaf.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390
Llongyfarchiadau i Hefin a Trudy Pritchard, Tyddyn Alis, ar enedigaeth eu mab cyntaf anedig ar 18 Medi.
Cydymdeimlwn â Mr Selwyn Davies, 3 Tan y Bryn, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl yn ddiweddar, sef Mrs Elizabeth Jane Davies gynt o Dre Friw.

Y Fainc yn ôl: Da yw gweld fod mainc wedi'i gosod wrth y Capel unwaith eto. Difrodwyd yr un flaenorol gan ddamwain car rai blynyddoedd yn ôl.

Cerrig Beddau

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri


am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30

Ffôn: (01286)
870922

CROESAIR HYDREF



CYSYLLTIAD RHWNG CHWECH

'WYT TI WEDI'I BWYDO NHW?'
Cwestiwn a ofynnir yn ddyddiol yn rhywle ynglŷn â'r atebion i 1,3,6,25 ar draws ac 14 a 23 i lawr.

AR DRAWS

1. Y rhai poethaf o'r chwech? (3)
2. Yn beryg bywyd i 14 a 23 i lawr (5)
6. Y rhai gwlypaf o'r chwech! (6)
9. Yr unig ddyn i ddod o Nantgarw eleni! (5)
10. Anwadal lafna budr (5)
11. Poen (4)
12. Un sy'n arwyddo (7)
13. Gafael yn dynn, dynn (8)
14. Ramant un yn chwalu mewn eiliad (8)
17. Dosbarthu (6)
18. Mae Meri mewn arian cemegol yn y wlad bell yma (6)
20. Un sy'n cadw gwybodaeth ar dâp magnetig (8)
23. Un edafog o Lanfyllin yn nogio (8)
25. Ing od yn dilyn 1 ar draws (7)
28. Orig rhyfedd, ond mae'n naturiol i 14 i lawr (4)
29. Chwyth (5)
30. Llestr i'w doddi dan gwpan (5)


I LAWR

31. Cyfrannu penodol o fwyd — 'rations' (6)
32. Llefain uchel yn dod o'r bunia blêr (5)
33. Rwy'n gwybod y gellir lladd â hwn (3)
1. Cig (5)
2. Un sy'n dioddef o eisiau bwyd (7)
3. Does dim byd yn feddal yn Meical Edwards (5)
4. Gwynedd, Clwyd a'r Arcadia, er enghraifft (7)
5. Rhwymedigaeth (5)
6. Hawarden (8)
7. Rhai fu'n gosod y seiliau (10)
8. Ennill gwybodaeth (5)
14. Y rhai uchaf o'r chwech! (4)
15. Pobl sy'n damcaniaethu (10)
16. Morthwyl trwm (4)
19. Gwelwi (8)
21. Cawn loches o flaen cil! (7)
22. Mynegai (7)
23. Gwynion yw'r rhai y cyfeirir atynt yn y cyflwyniad fel arfer (5)
24. Trywanu (5)
26. Cyfnod tywyll, p'run bynnag ffordd yr edrychir arno (5)
27. Pig (5)

Er na chawsoch fawr mwy na phythefnos i ateb croesair mis Medi fe dderbyniais nifer o geisiadau. Yn anffodus, doedd ond un ar ddeg ohonynt yn gwbl gywir, sef Nansi Davies, Rhuthun; Elfed Evans, Llanllechid; Mair Foulkes, Penisarwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Beryl Jones, Garndolbenmaen; Mrs G. Gill, Bangor; E. E. Jones, Rhos-hirwaun; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mrs E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Caatherine A. Jones, Rhiw; a

Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug, sef yr enw a ddaeth allan o'r het. Llongyfarchiadau Mrs Williams, mae £5 mis Medi ar ei ffordd i chi.

Ar ôl ichi gwblhau croesair mis Hydref rwyf am i chi greu cliw cryptig i'r term a ddefnyddir i ddisgrifio rhai megis yr atebion i'r chwech a nodir yn y cyflwyniad. Fe wobrwyr y mwyaf diddorol o'r atebion cywir a dderbynnir gan Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 25 Hydref.



RAS ANTUR WAUNFAWR

28 MEDI 1996

Y GANOLFAN, WAUNFAWR

am 2 o'r gloch

RAS 10k :: RAS HWYL

STONDINAU :: LLUNIAETH

DEWCH YN LLU I GEFNOGI

DYDDIADUR MIS HYDREF

1. **Mawrth** **LLANBERIS:** Y Gyfeillach yng Nghapel Jerusalem am 2. Y Gymdeithas Lenyddol yn y Capel Coch am 7.
3. **Iau** **DEINIOLLEN:** Cyfarfod y Chwirydd yn Ebeneser am 2 gyda Mrs Miriam Lewis.
3. **Llun** **LLANRUG:** Uneb y Mamau yn Hafan Elan
9. **Mercher** **DEINIOLLEN:** Undeb y Mamau yn Eglwys Llandinorwig
9. **Mercher** **BETHEL:** Merched y Wawr yn yr Ysgol am 7.30, gyda Bethan Jones-Parry.
13. **SUL** **CWM-Y-GLO:** Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Sant Gabriel am 9.15 a.m.
13. **SUL** **DEINIOLLEN:** Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Crist Llandinorwig am 2, gyda'r Parchg K. Sandells-Rees, Caplan Ysbyty Gwynedd.
13. **SUL** **PENISARWAUN:** Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Santes Helen am 4.30 p.m. gyda'r Tra-Barchedig Erwyd Edwards, Deon Cadeirlan Bangor.
14. **Llun** **CWM-Y-GLO:** Gosber yn Eglwys Sant Gabriel am 7 p.m.
14. **Llun** **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.30 p.m. gyda Llesiau'r Gweunydd.
15. **Mawrth** **BETHEL:** Noson Goffi yn Festri Capel Cysegr.
16. **Mercher** **CWM-Y-GLO:** Noson Goffi yn y Neuadd am 7 p.m.
18. **Gwener** **BETHEL:** Noson o ddawnsio gwerin a dawnsio disgo yn y Neuadd.
20. **SUL** **DEINIOLLEN:** Cyfarfod Diolchgarwch Undebol yn Ebeneser am 10.30 a.m. Cyfarfod yn Ebeneser a Chefnywaun am 5 p.m.
21. **Llun** **DEINIOLLEN:** Merched y Wawr gyda'r Parchg Tegid Roberts.
24. **Iau** **DINORWIG:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan.
24. **Iau** **CAERNARFON:** Ffair Hydref Ymchwil y Galon yn yr Institiwt am 7 p.m.
26. **Sadwrn** **DEINIOLLEN:** Eisteddfod Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebeneser am 12.30 a 6 p.m.
30. **Mercher** **DEINIOLLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Ebeneser am 7 p.m. Sgwrs gan Mrs Nesta Jones, Pantglas.
31. **Iau** **PENISARWAUN:** Noson Calangaeaf yn y Neuadd Gymuned.

RHOIDDION

- £10: Mrs Bessie Williams, 4 Alnwick Close, Bishop Auckland, Co. Durham — er cof am ei diweddar wr, J. E. Williams.
- £5: Teulu Pen-dyffryn, Dinorwig; John a Mattie Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis; Twm John Roberts, 83 Maes Padarn, Llanberis; Meirion Thomas, Shalom, Pentre Berw; Mrs N. Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen; Jean a Gwynfor Roberts, Tai Croesion, Penisarwaun; Mrs Sarah Roberts, Bryn Eryri, 7 Stryd Warden, Llanberis.
- £3: Mr a Mrs Gordon Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Teulu Mrj a Mrs ARfon Phillips, 9 Coed y Glyn, Llanberis.
- £2: Jan, Rob a'r teulu; Kelly

Marie Williams, 6 Coed y Ddôl, Llanberis; Dienw, Waunfawr.

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

★ Tacsï

★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

CHWARAEON

50+ AC YN DAL I REDEG



Y cyfarchion pen-blwydd yn y C&D dynnodd fy sylw pan welais y geiriau: 'pêldroediwr, cricedwr a rhedwr yn 50 oed'. Doedd dim amheuaeth pwy oedd y bachgen ifanc yn y llun. Ychydig iawn o newid a fu o ran edrychiad a phwysau ers dyddiau ieuenctid. Cyfeirio rwyf at Gwilym Williams, Bethel erbyn hyn, ond i bawb ym mro'r Eco, Gwil Bach, neu Gwil Cwm. Dyma un sy'n uchel iawn ei barch ym myd y campau yn lleol. Ar y maes pêl-droed bwm yn chwarae yn erbyn ac efo Gwil. O ran trafod y bêl, roedd Gwil ymysg y goreuon. Dyma ddribliwr o fri. Naw gwaith o bob deg i'r dde ar hyd yr asgell yr âi Gwil, ond anodd iawn oedd ei stopio gan fod ei amseru mor dda. Roedd yn asgellwr wrth reddf, gyda gallu rhyfeddol i groesi pêl. Roedd hefyd yn sgoriwr rheolaidd, gyda tharan o ergyd yn ei droed dde. I Gwil, un tîm pêl-droed oedd ac a fydd, sef Llanbêr. Er iddo gael cyfnodau byr iawn gydag ambell glwb arall, y strimyn cul o wair ar yr asgell fu 'patch' Gwil erioed. Gallai unrhyw un o chwaraewyr Llanbêr godi i ben ac fe fyddai Gwil ar gael allan ar yr asgell.

Cofiaf ddwy gêm arbennig rhwng Llanberis a'r Normal, ddiwedd y chwedegau. Gêmau cwpan oeddynt ac fe es innau, yn fyfyrwr ifanc, i gadarnle Ffordd Padarn ac ennill 4-3. Ond rai misoedd yn ddiweddarach fe dalodd Gwil yn ôl! Ffeinal Cwpan Alves ar yr Oval: gêm gyntaf gyfartal 2-2. Ond yn yr ail gêm, enillodd Llanberis (neu yn hytrach Gwilym Williams) o 4-2. Roedd yn wych y noson honno o flaen torf o dros 1,000. Bydd rhai ohonoch yn cofio am ychydig dymhorau yn ôl pan nad oedd gôlgeidwad gan Lanberis, a dyna pryd y chwaraeodd Gwil Bach fel gôli.

Ar y maes criced gwyddai Gwil ei gryfderau a'i wendidau ac yr oedd yn parchu ei wiced. Roedd mor gyndyn o ildio ei griced ag y bu o ollwng gafaél ar bêl-droed, ac roedd wrth ei fodd yn maesu.

Erbyn heddiw mae'n codi cywilydd arnaf. Tra gyrraf i yn y car ar siwrnai fer iawn yn aml iawn fe welaf Gwil yn rhedeg ar hyd ffyrdd y fro gan ei fod yn aelod o Glwb Rhedeg Eryri a'r un mor deyrngar i'r clwb hwnnw ag a fu i'w glybiau eraill. Yn fy marn i mae agwedd berffaith y mabolgampwr amatur gan Gwil — mwynhau y gêm, gweithio i'r gêm, paratoi am y gêm, a rhoi'r gorau i'r gêm.



Cystadleuwyr y Treialon Pysgota.

RAS PEDOL PERIS

Canol Medi, ac unwaith eto, roedd rhedwyr o bob cwr o Brydain yn ôl wrth odre'r Elidir; y tro hwn i herio'r cribau oddeutu Bwlch Llanberis — bron i ddeunaw milltir o redeg ac wyth mil o droedfeddi o ddringo. Eleni roedd y ras yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain — a hon oedd ras ola'r tymor yn y bencampwriaeth. Yn ogystal â hynny, roedd yn rhan o Bencampwriaeth Cymru a Phencampwriaeth Clwb Rhedwyr Eryri. Nid syndod felly i gant wyth deg a naw o redwyr herio'r pellter a'r uchder mewn tywydd bendigedig i gerdded, ond llawer rhy glòs i redeg!

I'r rhai fyddai â diddordeb mewn

Ddechrau mis Medi cynhaliwyd y ras arferol o bentref Nant Peris i gopa'r Elidir fawr ac yn ôl — pellter o bum milltir a dwy fil wyth can troedfedd o ddringo. Y llynedd, oherwydd i'r ras gael ei phennu yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain, bu'n rhaid newid rhywfaint ar y cwrs, a chadwyd at y cwrs newydd eleni eto. Gynt, rhedeg i'r copa ac yn ôl ar hyd yr un llwybr oedd hynt y ras. Bellach, ar ôl cyrraedd y copa creigiog, rhaid i'r rhedwyr barhau ar hyd y grib uwchben y Marchlyn a dilyn y llwybr carregog draw i gyfeiriad Mynydd Perfedd. Oddi ynoa, cadw i'r dde ar hyd ymylon Bwlch y Breccan nes cyrraedd godre'r Garn, a throi ar hyd y llethrau sy'n disgyn yn ôl i Gwm Dudodyn ac i lawr y llechweddau i'r Nant.

Nifer gweddol fychan fu'n cystadlu eleni — 35 o redwyr yn unig

— ond roedd y tywydd bron yn berffaith ar gyfer rhedeg mynydd: awel ysgafn a dim gwres llethol wrth ddringo llethrau serth Elidir. Efallai oherwydd y diffyg cystadleuaeth, un record yn unig a dorrwyd, a honno yn y categori i ddynion hŷn, dros hanner cant oed, gyda Don Williams o Glwb Eryri yn gorffen yn drydydd yn y ras mewn amser o 58 munud ac un eiliad — bron i runud yn gyflymach na'r hen record. Rhedwyr o Glwb Eryri oedd yn amlwg fel enillwyr pob categori, gyda Colin Donnelly o Benisarwaun yn gyntaf; Trefor Jones o Lanberis yn ail; a Steve Barnard yn drydydd yn adran y dynion. Yn adran y dynion hŷn, dros 40 oed, daeth Alan Hughes, Llanberis yn gyntaf, yn cael ei ddilyn gan Dafydd Whiteside o Lanrug a Ronnie Roberts o Lanberis. Menna Angharad oedd enillydd y merched, gyda Jane Lloyd yn ail ac Alison Donnelly yn drydydd.

LLONGYFARCHIADAU

... a sgŵp ...

Llongyfarchiadau calonog i dîm criced Fron Dinas ar gyflawni'r dwbl yng Nghynghrair Gwynedd. Wedi cipio'r gynghrair yn gyfforddus, enillwyd Cwpan Pike trwy guro Bangor o 4 wiced ar faes Tŷ Newydd.

Cyrhaeddodd eu tîm ieuenctid rownd derfynol Cwpan Eder. Yn anffodus mae ganddynt broblem dod o hyd i gae, ond mae si y bydd cartref iddynt ym mro'r Eco yn y dyfodol. Gobeithio mai felly y bydd gan fod yma nifer o blant o oed cynradd ymlaen â gwir ddiddordeb yn y gêm. Mae gwir angen clwb iddynt yn lleol.



Tra ar thema criced llongyfarchiadau i Tom Evison, Caeathro, ar gael ei ddewis yn chwaraewr ifanc y flwyddyn yng nghlwb Bangor. Er ond yn 12 oed mae'n chwarae'n rheolaidd i'r tîm — 16 yng Nghynghrair Ieuenctid Môn ac Arfon. Cipiodd 28 wiced gyda'i fowlio araf, ar gyfartaledd o 2.8 rhediad y wiced. I gorni ei flwyddyn, cyflwynwyd y tlws iddo gan Mathew Maynard, rhyw hogyn ifanc bach arall a ddechreuodd yn Nhŷ Newydd.

ennill gwobr oedd Don Williams o Eryri a ddaeth yn ail yn yr adran i ddynion dros 50 oed, ac a'i galluogodd i ennill Pencampwriaeth Cymru unwaith eto yn yr adran honno.

Mae tymor yn rasio mynyddoedd bron ar ben, a bydd cyfnod byr o orffwys i'r rhedwyr cyn i dymor y rhedeg traws gwlad afael ynddi o ddifri. Ydi, mae rhedwyr yn cael llai o egwyl na hyd yn oed bêldroedwyr proffesiynol!

